Withdrawn

This publication is withdrawn.
The publication is no longer current.

Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA)

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith a Phensiynau

Darllenwch y daflen hon yn ofalus

Mae'r daflen hon yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ac yn dweud wrthych:

- am y cymorth y gallwn ei gynnig i chi, a
- yr hyn y mae angen i chi ei wneud tra byddwch yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Mae yna dau fath o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth:

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau byddwch fel arfer yn cael hwn os ydych wedi talu digon o gyfraniadau Yswiriant Gwladol
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm byddwch fel arfer yn cael hwn ar ben ei hunain neu ar ben eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau os ydych ar incwm isel

Gallech gael y ddau fath o Lwfans Ceisio Gwaith yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Byddwch ond yn talu treth, os yw'n ddyledus, ar Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau.

ESA40WER 06/18

Darllenwch y daflen hon yn ofalus parhad

Am ragor o wybodaeth am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, ewch i **www.gov.uk/lwfans-cyflogaeth-a-chymorth**

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallech ofyn i'ch teulu neu rywun rydych yn ei adnabod os gallwch ddefnyddio eu cysylltiad hwy i'r rhyngrwyd. Gallwch hefyd gael mynediad i'r rhyngrwyd yn eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol neu lyfrgell.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y daflen hon neu bydd ei hangen arnoch mewn Braille, print bras, fersiwn sain neu e-bost cysylltwch â ni ar:

- Ffôn **0800 328 1744**
- Ffôn testun **0800 169 0314**
- Saesneg **0800 169 0310**

Mae galwadau i rifau 0800 yn rhad ac am ddim o linellau daear a ffonau symudol.

Eich cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth

Beth fyddwch chi'n cael ei dalu pan fyddwch yn gwneud eich cais cyntaf

Pan fyddwch yn gwneud cais am Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwch fel arfer yn cael y gyfradd asesu hyd nes y byddwn yn asesu sut mae'ch anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd.



Byddwch yn cael eich talu bob pythefnos

Byddwn yn talu eich taliad Lwfans Cyflogaeth a Chymorth mewn i'r cyfrif banc neu'r gymdeithas adeiladu rydych wedi dweud wrthym.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth bellach ar ein gwefan yn **www.gov.uk/lwfans-cyflogaeth-a-chymorth/beth-fyddwch-yn-ei-gael**

Beth sydd angen i chi ei wneud



Parhewch i anfon eich Datganiadau Ffitrwydd i Weithio atom hyd nes y byddwn yn gofyn i chi beidio

Weithiau gelwir y rhain yn nodiadau ffitrwydd, nodiadau salwch neu dystysgrifau meddygol. Gallwch ddod o hyd i'r cyfeiriad post ar frig eich llythyrau. Gallent gymryd 7 diwrnod i'n cyrraedd drwy'r post.

Peidiwch â mynd â hwy i mewn i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith lleol.

Efallai na fyddwch yn cael eich taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth llawn os na fyddwch yn anfon eich datganiadau i mewn ar amser.

Beth sydd angen i chi ei wneud parhad

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

Dywedwch wrthym os oes unrhyw beth yn newid

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith ar unwaith am unrhyw newidiadau a allai newid y swm o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a gewch. Y ffordd gyflymaf o wneud hyn yw ffonio **0800 328 1744**. Mae'n rhaid i chi adael y Ganolfan Byd Gwaith wybod os:

- bydd eich manylion personol yn newid
- oes gennych gyflwr iechyd newydd
- bydd eich cyflwr presennol yn gwella neu'n gwaethygu
- bydd eich sefyllfa waith chi neu'ch partner yn newid
- mae newidiadau i'ch pensiwn, cynilion, buddsoddiadau neu eiddo
- bydd swm yr arian sy'n dod i mewn i'ch tŷ yn newid
- bydd unrhyw newidiadau i bwy sy'n byw yn eich tŷ
- rydych yn cymryd rhan mewn anghydfod masnachol (gweithred ddiwydiannol), neu na allwch weithio oherwydd anghydfod masnachol (gweithred ddiwydiannol)
- byddwch yn mynd i mewn neu'n gadael yr ysbyty os yw eich arhosiad am fwy na 4 wythnos
- byddwch yn mynd i'r carchar neu yn y ddalfa
- byddwch yn mynd dramor neu ar fin mynd dramor
- bydd eich partner yn marw

Beth sydd angen i chi ei wneud parhad



Dywedwch wrthym ar unwaith am unrhyw newid

Os nad ydych yn dweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith ar unwaith am unrhyw newidiadau, gallech gael eich talu'r swm anghywir o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Efallai y bydd yn rhaid i chi:

- ad-dalu unrhyw arian a ordalwyd i chi
- talu cosb ariannol
- mynd i'r llys

Weithiau efallai y byddwn yn talu gormod o arian i chi. Gelwir hyn yn ordaliad

Gall gordaliad ddigwydd oherwydd sawl rheswm.

Er enghraifft, roedd newid yn eich amgylchiadau a ni wnaethoch ddweud wrthym.

Os ydym wedi talu llai o Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi na ddylem wedi ei gwneud, byddwn yn talu unrhyw arian sy'n ddyledus i chi.

Beth sy’n digwydd nesaf

Eich sgwrs iechyd a gwaith

Efallai y byddwch yn cael apwyntiad i fynd i sgwrs iechyd a gwaith. Mae hwn yn fath o gyfweliad sy’n canolbwyntio ar waith. (ewch i dudalen 8 am wybodaeth am hyn).

Nid eich Asesiad Gallu i Weithio yw hwn.

Nid yw'r sgwrs yn ymwneud â chi’n chwilio neu wneud cais am waith yn awr, mae'n eich helpu i gael gwaith pan fyddwch chi'n gallu yn y dyfodol.

Gall eich helpu i ddod i adnabod eich anogwr gwaith a chynllunio camau syml i helpu magu eich hyder.

Efallai y bydd eich taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn cael eu lleihau os nad ydych yn mynd i a chymryd rhan yn eich sgwrs iechyd a gwaith, ac nad oes gennych reswm da dros beidio mynd. Rydym yn galw hyn yn **sancsiwn**.

I gael mwy o wybodaeth am sancsiynau, ewch i’n gwefan yn **www.gov.uk/lwfans-cyflogaeth-a-chymorth/beth-fyddwch-yn-ei-gael**

Beth sy’n digwydd nesaf

Eich Asesiad Gallu i Weithio

Mae’r asesiad hwn yn ein helpu i gael gwybod sut mae'ch anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd o ddydd i ddydd.

Mae **dwy** ran i’r asesiad.

Rhan 1

Byddwn yn anfon holiadur Gallu i Weithio atoch (gelwir hyn hefyd yn ffurflen ESA50W) ychydig wythnosau ar ôl i chi wneud eich cais.

Bydd angen i chi lenwi'r holiadur a'i ddychwelyd i'r Gwasanaeth Ymgynghorol Asesiad Iechyd. Os bydd angen arnoch, gallwch ofyn i rywun (fel ffrind neu berthynas) i’ch helpu i’w llenwi.



Rhan 2

Efallai y gofynnir i chi fynd i apwyntiad wyneb yn wyneb gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Bydd hyn naill ai'n nyrs, meddyg, ffisiotherapydd neu therapydd galwedigaethol. Gallwch ddod â ffrind neu aelod o’r teulu i’r apwyntiad, fel cefnogaeth, os hoffech wneud hynny.

I barhau i gael eich taliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth bydd rhaid i chi gwblhau dau gam eich Asesiad Gallu i Weithio os gofynnwn i chi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr Asesiad Gallu i Weithio, hawlio treuliau yn ôl a gwylio enghraifft fideo o asesiad ar wefan **www.chdauk.co.uk**

Os **gallwn** dalu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi yn dilyn eich Asesiad Gallu i Weithio

Os gallwn dalu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi yn dilyn eich asesiad, cewch eich gosod yn **un** o'r grwpiau canlynol.

Mae'r grŵp gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith....

ar gyfer pobl sydd â rhai cyfyngiadau ar y pethau y gallant eu gwneud.

Byddwch yn cael apwyntiadau gydag anogwr gwaith a fydd yn cytuno gyda chi pa weithgareddau y gallwch eu gwneud i'ch helpu i mewn i waith. Rydym yn galw'r pethau rydych yn cytuno i'w gwneud yn eich gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Ond os na fyddwch yn mynd i'ch apwyntiadau neu'n gwneud y pethau rydych wedi dweud eich bod yn mynd i'w wneud, gallai eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth cael ei lleihau. Rydym yn galw hyn yn **sancsiwn**.

I barhau i gael eich Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, byddwch angen gwneud eich gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Mae'r grŵp cymorth....

yn golygu na fydd yn rhaid i chi fynd i gyfarfodydd gydag anogwr gwaith neu gymryd rhan mewn gweithgareddau i'ch helpu i mewn i waith.

Ond os ydych eisiau cael cymorth, gallwch siarad ag anogwr gwaith ar unrhyw adeg. Gallant eich helpu i gael hyfforddiant i ddysgu sgiliau newydd, neu'ch helpu i ysgrifennu eich CV. Gallai'r cymorth hwn fod yn ddefnyddiol os oes newid yn eich anabledd, salwch neu gyflwr iechyd.

Os **na allwn** dalu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi ar ôl eich asesiad



Os ydym yn credu nid yw'ch anabledd, salwch neu gyflwr iechyd yn cyfyngu ar eich gallu i weithio, byddwn yn eich ffonio i wirio ein bod wedi edrych ar yr holl wybodaeth sydd ar gael.

Os byddwn wedi gweld yr holl wybodaeth, byddwn yn anfon llythyr atoch yn rhoi gwybod i chi pam na allwn barhau i dalu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi. Byddwn hefyd yn anfon llythyr at eich meddyg yn gadael iddynt wybod nid oes angen rhagor o Ddatganiadau Ffitrwydd i Weithio arnom.

Os byddwn yn penderfynu na allwn dalu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi, efallai y gallwch gael budd-daliadau eraill, gan gynnwys Credyd Cynhwysol a Lwfans Ceisio Gwaith. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn **www.gov.uk/benefits-calculators**

Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad i beidio â thalu chi **neu'r** grŵp rydych wedi cael ei osod ynddo....



Gallwch ofyn i ni ddweud pam wrthych

Gallwch chi, neu rywun sydd â'r awdurdod i weithredu ar eich rhan, ffonio neu ysgrifennu atom o fewn mis i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad i ofyn i ni esbonio ein penderfyniad yn ysgrifenedig.

Os na allwn dalu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth i chi ar ôl eich asesiad parhad

Gallwch hefyd ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad

Dywedwch wrthym os:

- rydych yn meddwl ein bod wedi esgeuluso gwybodaeth, neu
- mae gennych fwy o wybodaeth a allai newid y penderfyniad

Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn mis i'r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.

Pan fyddwn wedi edrych ar y wybodaeth newydd rydych wedi ei rhoi i ni, byddwn yn anfon llythyr atoch i ddweud wrthych beth rydym wedi ei benderfynu a pham.

Rydym yn galw'r llythyr hwn yn Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol.

Sut i apelio

Os byddwch yn anghytuno â'r Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol.

Mae'n rhaid i chi aros am yr Hysbysiad Ailystyriaeth Orfodol cyn i chi ddechrau apelio.

Efallai y byddwch yn gallu gweithio a pharhau i hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth





Gwaith a ganiateir

Efallai y byddwch yn gallu gwneud rhywfaint o waith a pharhau i gael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Gelwir hwn yn waith a ganiateir ac mae'n gadael i chi:

- gweithio am lai na 16 awr bob wythnos
- ennill hyd at £125.50 (mis Ebrill 2018) **bob wythnos**, ar ôl treth
- cael eich swm arferol o daliad budd-dal
- adeiladu eich sgiliau a'ch profiad
- gwneud gwaith gwirfoddol - nid oes cyfyngiad ar faint o oriau'r wythnos y gallwch wneud gwaith gwirfoddol.

O fis Ebrill 2017 nid oes cyfyngiad ar y nifer o wythnosau y gallwch wneud gwaith a ganiateir.

Cyn i chi ddechrau unrhyw waith, boed yn gyflogedig neu'n ddi-dâl, mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen PW1W a'i hanfon i'r swyddfa Canolfan Byd Gwaith sy'n delio â'ch budd-dal.

Y ffordd gyflymaf a hawsaf i gael copi o'r ffurflen PW1W yw trwy ein gwefan yn **www.gov.uk/cymraeg** a chwiliwch am PW1W. Neu, ffoniwch y Ganolfan Byd Gwaith ar **0800 328 1744** i ofyn iddynt anfon PW1W atoch.

I gael mwy o wybodaeth am waith a ganiateir, siaradwch â'ch anogwr gwaith neu ewch i'n gwefan yn **www.gov.uk/lwfans-cyflogaeth-a-chymorth/cymhwyster**

Gallwch chwilio am swydd drwy Dod o hyd i swydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn **www.gov.uk/chwilio-am-swydd**

Mwy o wybodaeth

Help a chymorth arall y gallech ei gael

- Credyd Cynhwysol
- Dewis Gwaith (rhaglen i'ch helpu chi i gael swydd a chadw swydd os ydych yn anabl)
- Mynediad at Waith (taliad a wneir i gynorthwyo pobl anabl sydd mewn gwaith neu Dreial Gwaith)
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- Taliadau Llog Morgais
- Credydau Treth Plant
- Taliadau Tanwydd Gaeaf a Thaliadau Tywydd Oer
- Budd-dal Tai
  Gall helpu i dalu am rent ar gyfer eich cartref. Cysylltwch â'ch cyngor lleol
- Gostyngiad Treth Cyngor

  Help i dalu am eich treth cyngor. Cysylltwch â'ch cyngor lleol
- Gwasanaeth Cynghori Ariannol
  Ewch i
  www.moneyadviceservice.org.uk/cy
- Presgripsiynau, sbectol a thriniaeth ddeintyddol.

  Ewch i **www.dh.gov.uk**
- Taliadau Tanwydd Gaeaf a Thaliadau Tywydd Oer